**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 21 HYDREF 2020 DYDD MERCHER, 21 HYDREF 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HILL (CADEIRYDD)

Councillors P. Edwards (Is-gadeirydd)
G. A. Davies
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Rowson
B. Willis
M. Cook
S. Healy

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Elias a H. McCarthy.<br><br>Dywedwyd fod y Cynghorwyr S. Healy a M. Cook yn bresennol fel dirprwyon ar gyfer y Cynghorwyr G. Collier a M. Holland. Fodd bynnag, pe byddai'r Cynghorydd Collier neu Holland yn mynychu'r cyfarfod, yna byddai'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorwyr Healy and Cook yn gadael. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020.<br><br>Gofynnodd y Cynghorwyr P. Edwards a J.C. Morgan y dylai eu henwau gael eu cefnogi fel bod yn erbyn cadarnhau'r cofnodion.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu yn deillio o gyfarfod arbennig y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Adfywio ar 23 Medi 2020. | |
| **No. 6** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH: 2 RHAGFYR 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gynnal ar 2 Rhagfyr 2020.<br><br>Dywedwyd y dylid newid 'Cyflwynwyd yr adroddiad gan' ar y dudalen gyntaf i ddarllen y Cynghorydd John Hill, Pwyllgor Craffu Adfywio.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr eitemau yn y Pecyn Gwybodaeth, sef yr adroddiad diweddaru Ardal Gwella Busnes (BID) a gofynnodd am gynnwys hyn yn y flaenraglen waith o hyn ymlaen.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad. | |
| **No. 7** | **<u>GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CANOL TREFI AC YMATEB ECONOMAIDD YN DILYN COVID-19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd | |

Adfywio sy’n rhoi diweddariad i Aelodau ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gofynnodd am gytundeb i ailsefydlu’r grŵp Gorchwyl a Gorffen i barhau eu gwaith ar Strategaeth Canol Trefi.

Dywedodd y Swyddog bod y Pwyllgor Craffu Adfywio ym mis Rhagfyr 2019 wedi cymeradwyo adroddiad y sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canol Trefi gyda’r wybodaeth ddilynol:

Cynghorydd Joanna Wilkins
Cynghorydd Keri Rowson
Cynghorydd Wayne Hodgins
Cynghorydd Phil Edwards
Cynghorydd John Morgan
Cynghorydd Lee Parsons
Cynghorydd John Hill

Roedd yr aelodaeth yn sicrhau bod cynrychiolaeth leol ar gyfer pob canol tref a chynhaliwyd dau gyfarfod o’r grŵp cyn y cyfnod clo Covid.

O ran aelodaeth y Grŵp o hyn ymlaen, dywedodd y Swyddog i’r Cynghorydd Joanna Wilkins gael ei phenodi’n Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yn CCB y Cyngor ac fel canlyniad na fyddai mwyach yn aelod o’r Pwyllgor Craffu Adfywio.

Fodd bynnag, er hyn mae cynrychiolaeth ddigonol yn dal i fod ar gyfer y trefi ymysg gweddill Aelodau’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Dywedodd y Swyddog i’r Cyngor gael ei wahodd gan Ddirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Cymru ym mis Mai i gyflwyno cais i dderbyn cymorth cyllid refeniw, a gallodd pob awdurdod lleol ar draws Cymru gael mynediad i hyd at £25,000 drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Cafodd yr arian ei glustnodi ar gyfer gwariant ar opsiynau posibl oedd yn cynnwys datblygu cynlluniau meistr; prosiectau a darpariaethau digidol; ymgysylltu cymunedol/rhanddeiliaid; gwaith eiddo gwag/gorfodaeth; archwiliad seilwaith gwyrdd; brandio lle.

Cynigiwyd felly i symud ymlaen â dull brandio lle ar gyfer Blaenau Gwent a gaiff ei gefnogi gan bob un o’r tri a’r ardaloedd y maent eisiau ‘gweiddi’ amdanynt. Caiff hyn hefyd ei gefnogi ymchwilio sut y gallai dull gweithredu digidol gefnogi’r masnachu ‘brics a morter’ traddodiadol. Yn ychwanegol at y gwaith brandio lle, byddid yn datblygu rhaglen a gytunwyd o farchnata a chyfathrebu i gefnogi’r canol trefi a’i roi ar waith, gyda chefnogaeth gan y Fforymau Canol Trefi.

Dywedodd y Swyddog hefyd y penodwyd Swyddog Datblygu

| | | |
|---|---|---|
| | Busnes Canol Trefi yn ddiweddar i ddechrau gwaith ar 1 Tachwedd 2020. Byddai'r swydd hon yn allweddol wrth symud ymlaen â gwaith y Gweithgor Gorchwyl a Gorffen a chyflwyno'r Strategaeth Canol Trefi a chefnogi busnesau canol trefi.<br><br>Wedyn aeth y Swyddog drwy'r opsiynau a amlygir yn yr adroddiad a chadarnhaodd y byddai Aelodau yn cael nodyn gwybodaeth ar drafodaethau blaenorol cyn cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ynghyd â chyflwyniad byr ar ddechrau'r cyfarfod i adfywio trafodaethau blaenorol a chadarnhau'r camau nesaf. Byddai'r cyfarfod hwn hefyd yn cynnwys trafodaeth a chytundeb ar amserlenni ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac adrodd canlyniadau.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adroddiad a phenodi Swyddog Datblygu Canol Trefi. Yn nhermau aelodaeth o'r Grŵp dywedodd ei fod yn hapus i gynrychioli Abertyleri o hyn ymlaen, gyda chytundeb Aelodau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad ac ailsefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen (gyda'r aelodaeth bresennol) ac ailddechrau eu hystyriaeth o'r Strategaeth Canol Trefi. Byddai'r Grŵp yn ailedrych ar feysydd blaenorol a ystyriwyd i sicrhau eu bod yn alinio gydag unrhyw addasiadau Covid-19 y gall fod eu hangen, ond byddai'r ffocws ar y meysydd eraill na chafodd eu trafod hyd yma gyda golwg tuag at gwblhau gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen cyn gynted ag sy'n bosibl. (Opsiwn 1) | |
| **No. 8** | <u>**PRIF GYNLLUN BRYNMAWR A NANTYGLO**</u><br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y Cynllun Meistr a gomisiynwyd ar gyfer safleoedd allweddol o fewn Brynmawr a Nantyglo a gofynnodd am gymeradwyaeth i gyfres o argymhellion a gynigiwyd. | |

Dywedodd y Swyddog mai Brynmawr oedd canolbwynt cymunedau rhan uchaf cwm Ebwy Fach. Fodd bynnag, fel gyda phob canol tref, roedd y gostyngiad parhaus yn y nifer sy'n mynd i'r dref yn her go iawn ac felly mae'n bwysig cael ffocws ar brosiectau a mesurau i ddenu pobl yn yr ardal. Mae'r ardal astudiaeth a ddiffiniwyd yn cynnwys wardiau Brynmawr a Nantyglo gydag egwyddorion allweddol yr astudiaeth yn canolbwyntio'n benodol ar safleoedd strategol allweddol. Dynodwyd sefyllfaoedd datblygu a llwybrau i'r farchnad ar gyfer pob un o'r safleoedd ac mae ymgynghorwyr hefyd wedi cynnal dadansoddiad marchnad ar gyfer pob un o'r opsiynau datblygu, wedi datblygu cynlluniau dechreuol ar gyfer pob un o'r sefyllfaoedd ac wedi cynnal gweithgaredd ymgynghori sy'n cynnwys Swyddogion Blaenau Gwent, ymgysylltu ag Aelodau ac ymgynghori â'r cyhoedd.

Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adroddiad ond tanlinellodd bwysigrwydd hyblygrwydd o fewn y Cynllun Meistr o hyn ymlaen i roi ystyriaeth i ddatblygiad unrhyw safleoedd eraill posibl.

Mewn ymateb rhoddodd y Swyddog sicrwydd y byddai'r ddogfen yn hylif a dywedodd ei fod yn rhoi sylfaen ac egwyddorion ar gyfer pob safle a phenderfyniad.

Dilynodd trafodaeth fer pan eglurodd y Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelodau.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod, a chymeradwyo canfyddiadau Cynllun Meistr Brynmawr a Nantyglo a chytuno ar y camau nesaf ar gyfer gwaith i gael ei wneud yn y meysydd dilynol:-

- Datblygu ceisiadau am gyllid i gefnogi gweithgaredd pellach (ymchwiliadau safle, caffael safle a dymchwel);
- Parhau dialog gyda rhanddeiliaid allweddol; a
- Datblygu opsiynau datblygu posibl ymhellach ar gyfer Tŷ Boeler Brynmawr (model cyflenwi, opsiynau cyllid, defnydd y dyfodol). *(Opsiwn 2).*